



Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

Bwletin GwE

Prosiect Ymchwil Gweithredol Rhanbarthol ar Asesu Ffurfiannol – GwE a Shirley Clarke

MAE COFRESTRU AR GYFER HAEN 3 AR AGOR –

Dyddiad cofrestru wedi ymestyn i Ddydd Gwener 21 Mehefin

Gwahoddir holl ysgolion y rhanbarth na fu eisoes yn rhan o'r prosiect cyffrous hwn i ymuno yn Haen 3, fydd yn digwydd dros flwyddyn addysgol 2019-2020.

Cofrestrwch drwy G6 erbyn 21 Mehefin 2019.

Darllenwch yr wybodaeth am y prosiect ar gyfer Haen 3 2019-2020 cyn cofrestru os gwelwch yn dda – mae gwybodaeth bwysig [yma](#).

Cynnig GwE ar G6

Fel y gwychoch, mae Cynnig GwE, sy'n cynnwys holl fanylion yr hyfforddiant datblygiad proffesiynol y mae GwE yn ei gynnig ar gyfer y flwyddyn nesaf, bellach yn fyw ar G6 [<https://g6.gwegogledd.cymru>].

Er mwyn cofrestru i fynychu'r hyfforddiant sydd wedi'i restru, bydd angen i holl staff yr ysgol greu cyfrif personol yn G6.

Mae modd gwneud hynny drwy ddilyn y **ddolen hon** a chlicio ar y botwm 'Cofrestrwch Nawr'. Gweler y cyfarwyddiadau [yma](#).

HYFFORDDIANT	DYDDIAD	LLEOLIAD	CYFRWNG
Defnydd Effeithiol o'r Teclyn Orlhain Cynnydd Ysgol Gyfan [Cymraeg – Gaerwen – Bore]	19/06/2019	G-SParc, Gaerwen	Cymraeg
3U Ymsefydlu i ANG [Yr Wyddgrug]	20/06/2019	Swyddfa GwE, Linden House, Yr Wyddgrug	Dwyieithog
Trin Data yng Nghyfnod Allweddol 2 [Cymraeg - Plas Menai]	20/06/2019	Plas Menai, Caernarfon	Cymraeg
3U Ymsefydlu i ANG [Plas Menai]	21/06/2019	Plas Menai, Caernarfon	Cymraeg
Trin Data yng Nghyfnod Allweddol 2 [Saesneg - Yr Wyddgrug]	21/06/2019	Swyddfa GwE, Linden House, Yr Wyddgrug	Saesneg
Defnydd Effeithiol o'r Teclyn Orlhain Cynnydd Ysgol Gyfan [Saesneg – Bryn Eirias – Bore]	24/06/2019	Swyddfa GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn	Saesneg
Defnydd Effeithiol o'r Teclyn Orlhain Cynnydd Ysgol Gyfan [Cymraeg – Bryn Eirias – Prynawn]	24/06/2019	Swyddfa GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn	Cymraeg
Defnydd Effeithiol o'r Teclyn Orlhain Cynnydd Ysgol Gyfan [Saesneg – Rhuthun – Bore]	25/06/2019	Ystafell Cabinet, Neuadd y Sir, Rhuthun	Saesneg
Defnydd Effeithiol o'r Teclyn Orlhain Cynnydd Ysgol Gyfan [Dwyieithog – Linden House – Bore]	25/06/2019	Swyddfa GwE, Linden House, Yr Wyddgrug	Dwyieithog
Defnydd Effeithiol o'r Teclyn Orlhain Cynnydd Ysgol Gyfan [Cymraeg – Rhuthun – Prynawn]	25/06/2019	Ystafell Cabinet, Neuadd y Sir, Rhuthun	Cymraeg
Defnydd Effeithiol o'r Teclyn Orlhain Cynnydd Ysgol Gyfan [Dwyieithog – Linden House – Prynawn]	25/06/2019	Swyddfa GwE, Linden House, Yr Wyddgrug	Dwyieithog
Gweithdy ADY efo Mike Gershon [Yr Wyddgrug]	25/06/2019	Gwesty Beaufort Park, Yr Wyddgrug	Saesneg
Gwyddoniaeth (Uwchradd) - Addysgu Tuag yn Ôl	25/06/2019	Venue Cymru, Llandudno	Dwyieithog
Defnydd Effeithiol o'r Teclyn Orlhain Cynnydd Ysgol Gyfan [Cymraeg – Penrhyndeudraeth – Bore]	25/06/2019	Ystafell Dwyryd, Penrhyndeudraeth	Cymraeg
Defnydd Effeithiol o'r Teclyn Orlhain Cynnydd Ysgol Gyfan [Dwyieithog – Linden House – Bore]	26/06/2019	Swyddfa GwE, Linden House, Yr Wyddgrug	Dwyieithog
Defnydd Effeithiol o'r Teclyn Orlhain Cynnydd Ysgol Gyfan [Dwyieithog – Linden House – Prynawn]	26/06/2019	Swyddfa GwE, Linden House, Yr Wyddgrug	Dwyieithog
Gweithdy ADY efo Mike Gershon	26/06/2019	Venue Cymru, Llandudno	Saesneg
Gweithdy ADY efo Mike Gershon [Glasdir, Llanrwst]	27/06/2019	Glasdir, Llanrwst	Saesneg
Cyfarfod Tymor yr Haf Rhwydwaith Arweinwyr Pwnc Gwyddoniaeth Uwchradd	28/06/2019	Canolfan Fusnes Conwy, Cyffordd Llandudno	Dwyieithog

Google – Camau Cyntaf gyda G-Suite [Saesneg- Linden House]	28/06/2019	Swyddfa GwE, Linden House, Yr Wyddgrug	Saesneg
Google for Education – Symud Ymlaen gyda G-Suite [Cymraeg, OpTIC, Llanelwy]	01/07/2019	OpTIC, Llanelwy	Cymraeg
GWYDDONIAETH UWCHRADD - Cyfarfod rhwydwaith Ffiseg - GWYNEDD / MÔN	02/07/2019	Adeilad Trefnai, Safle'r Normal, Prifysgol Bangor	Dwyieithog
GWYDDONIAETH UWCHRADD - Cyfarfod rhwydwaith Cemeg - Sir y Fflint / Wrecsam	02/07/2019	Gwesty Beaufort Park, Yr Wyddgrug	Dwyieithog
GWYDDONIAETH UWCHRADD - Cyfarfod rhwydwaith Biolog - CONWY / DINBYCH	02/07/2019	Canolfan Fusnes Conwy, Cyffordd Llandudno	Dwyieithog
Google for Education – Symud Ymlaen gyda G-Suite [Saesneg - Linden House, Yr Wyddgrug]	02/07/2019	Swyddfa GwE, Linden House, Yr Wyddgrug	Saesneg
GWYDDONIAETH UWCHRADD - Cyfarfod rhwydwaith Biolog - GWYNEDD / MÔN	03/07/2019	Adeilad Trefnai, Safle'r Normal, Prifysgol Bangor	Dwyieithog
GWYDDONIAETH UWCHRADD - Cyfarfod rhwydwaith Ffiseg - SIR Y FFLINT / WRECSAM	03/07/2019	Swyddfa GwE, Linden House, Yr Wyddgrug	Dwyieithog
GWYDDONIAETH UWCHRADD - Cyfarfod rhwydwaith Cemeg - CONWY / DINBYCH	03/07/2019	Canolfan Fusnes Conwy, Cyffordd Llandudno	Dwyieithog
GWYDDONIAETH UWCHRADD - Cyfarfod rhwydwaith Cemeg - GWYNEDD / MON	04/07/2019	Adeilad Trefnai, Safle'r Normal, Prifysgol Bangor	Dwyieithog
GWYDDONIAETH UWCHRADD - Cyfarfod rhwydwaith Biolog - SIR Y FFLINT A WRECSAM	04/07/2019	Swyddfa GwE, Linden House, Yr Wyddgrug	Dwyieithog
GWYDDONIAETH UWCHRADD - Cyfarfod rhwydwaith Ffiseg - CONWY A DINBYCH	04/07/2019	Canolfan Fusnes Conwy, Cyffordd Llandudno	Dwyieithog
Cynhadledd Haf ITM Dyfodol Byd-eang	12/07/2019	Venue Cymru, Llandudno	Saesneg

Rhaglenni Proffesiynol

RhDADB - Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Darpar Benaethiaid: Carfan 5 a 6 – 2019 2020

Mae'r rhaglen ddatblygu hon ar gyfer y rheiny sy'n uwch arweinwyr ar hyn o bryd.

Bydd y rhaglen yn defnyddio dull traws gyfnod a fydd yn galluogi'r cyfranogwyr i gyd i ddeall, gwerthfawrogi, rhannu a chydweithio â chyd-weithwyr ar draws y rhanbarth. Ceisiadau i'w dychwelyd erbyn 30 Mehefin i sylw cerisiankenrick@GwEGogledd.Cymru. Am ragor o wybodaeth ac i ymgeisio, cliciwch yma.

Cliciwch yma am gopi o'r prosbectws



Sesiynau Gwybodaeth CALU

****Sylwer os gwelwch yn dda bod y sesiwn wybodaeth CALU yn Nolgellau yfory (Dydd Mercher 19.6.19) wedi'i chanslo ****

Cynhelir sesiynau gwybodaeth am y Cynllun CALU i Gymorthyddion Dysgu a'u Penaethiaid / Rheolwyr ym mis Mehefin. Mae croeso i chi fynychu unrhyw un o'r sesiynau a restrir ar ein gwefan. **Os ydych yn dymuno ymgeisio i fod yn rhan o Garfan 1 CALU 2019-2020, mae'r pecyn cais i'w gael ar ein gwefan.** Cysylltwch â calu@gwegogledd.cymru neu 01286 679976 am ragor o wybodaeth.

Sesiynau 'Defnydd Effeithiol o'r Teclyn Olrhain Cynnydd Ysgol Gyfan'

I YSGOLION CYNRADD

Sesiwn ar wneud defnydd effeithiol o'r traciwr gan gynnwys hidlo i holi'r data, adroddiadau enghreifftiol ar gynydd carfanau a grwpiau o ddysgwyr a chyfarfodydd cynnydd disgyblion.

Manylion llawn ar G6.

COFRESTRWCH DRWY G6

Cyfleoedd gyda GwE



Ymgynghorydd Dysgu Digidol x2

Mae GwE yn dymuno penodi 2 x Ymgynghorydd Dysgu Digidol ar delerau secondiad rhan amser. Bydd yr Ymgynghorwyr Dysgu Digidol yn gweithio'n agos gyda'r Arweinydd Digidol Strategol i gynnig cyngor a chymorth i ysgolion ar sut i ddatblygu eu darpariaeth ar gyfer dysgu digidol. Bydd ganddynt ddealltwriaeth ragorol o arferion dosbarth effeithiol yn y maes, yn ogystal ag agweddau strategol ar arweinyddiaeth ddigidol.

Am fanylion pellach, cliciwch yma.

Gwahoddir ceisiadau trwy lythyr, gan gynnwys CV, erbyn 10.00 o'r gloch, Dydd Mawrth, 25 Mehefin 2019 at swyddi@gwegogledd.cymru

Am sgwrs anffurfiol, cysylltwch â Gwion Llyr Clarke, Arweinydd Digidol Strategol GwE ar 07929375819 neu e-bost gwionclarke@gwegogledd.cymru

Cynhadledd sy'n edrych ar sut y gall ymgysylltu â 'dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd' sicrhau newid

Dymuna GwE, mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru, estyn gwahoddiad i chi i Gynhadledd sy'n edrych ar sut y gall ymgysylltu â 'dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd' sicrhau newid.

Dydd Mercher 3 Gorffennaf
Venue Cymru
9.00 yb - 3.30 yp



Am ragor o wybodaeth am gynnwys a ffocws y dydd, cliciwch [yma](#).
Er mwyn cofrestru cliciwch ar y linc isod:
<https://www.eventbrite.com/e/cynhadledd>

Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ôl-16

Rydym yn falch o gyflwyno ein Rhaglen Datblygu Dysgu Ôl-16. Wedi'i hanelu at arweinwyr ôl-16 newydd neu ddarpar athrawon, mae'n cynnig cyfle i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau i wynebu heriau arweinyddiaeth ôl-16. Mae'n rhan o'r strategaeth genedlaethol ar gyfer cynllunio olyniaeth. [Linc i'r rhaglen](#). I gadw eich lle [cliciwch yma](#).



Cwrs Sabothol Cymraeg [Lefel Uwch]

10 MEDI – 11 RHAGFYR 2019 – CANOLFAN BEDWYR, BANGOR

Cwrs ar gyfer Cymorthyddion Dosbarth ysgolion cynradd sy'n gallu siarad Cymraeg yn rhugl [dysgwyr neu Gymry Cymraeg] ac sydd eisiau datblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth am yr iaith.

[Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion.

Cynadleddau a Chyfleoedd gan Erail

Gweler isod fanylion y cyfleoedd a allai fod yn ddefnyddiol yn eich ysgol. Sylwch nad yw GwE o reidrydd yn cymeradwyo nac yn sicrhau ansawdd y cyfleoedd isod. Cysylltwch â'r sefydliadau'n uniongyrchol os oes gennych ymholiadau:

Gwahoddiad i fynychu sesiynau rhannu gwybodaeth ar gyfer Penaethiaid Saesneg Uwchradd

Derbyniodd nifer fechan o ysgolion dros y rhanbarth grant arloesi Saesneg eleni. Bydd dwy ohonynt yn rhannu eu gwaith ymchwil/rhaglenni gwaith/arbenigedd â gweddill ysgolion y rhanbarth. [Ysgol Uwchradd Fflint](#) ac [Ysgol Glan Clwyd](#).

Hyfforddiant ar gyfer penaethiaid adrannau Saesneg Ysgolion Uwchradd Dinbych a Wrecsam yn unig

Cynhelir prynhawn hyfforddiant cychwynnol **ddydd Mercher, 26 Mehefin o 1 tan 3 yn Ysgol Rhiwabon, Wrecsam**. Yn ystod y sesiwn, byddwn yn rhannu'r holl adnoddau a'r dulliau, a byddant ar gael i'r aelodau. Mae'r sesiwn yn addas i unrhyw aelod o staff sy'n arwain ar ymyrraeth Lythrennedd - mae croeso i gymorthyddion dysgu, yn ogystal ag athrawon dosbarth. Am ragor o wybodaeth, mae croeso i chi gysylltu ag Anna Lloyd Williams ar **07580710982** neu annalloydwilliams@gwegogledd.cymru

Camau: Cynllun Dysgu Cymraeg Addysg a Gofal Plant Blynyddoedd Cynnar

Cynllun Dysgu Cymraeg penodol yw hwn ar gyfer y gweithlu Addysg a Gofal Plant Blynyddoedd Cynnar. Mae'r cynllun yn cynnwys pum cwrs ar wahanol lefelau rhuglder. Am ragor o wybodaeth, [cliciwch yma](#). I ddatgan diddordeb, [cofrestrwch yma](#).

Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau: 17-7-19

Bydd Dewch i ddatlu! Dysgu creadigol drwy'r celfyddydau yn Venue Cymru, Llandudno yn gyfres o ddigwyddiadau rhad ac am ddim i athrawon, artistiaid, dysgwyr a rhanddeiliaid o Gymru a'r tu hwnt. Bydd yn tynnu sylw at holl feysydd y rhaglen, yn cynnwys y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol a Chynnig Celfyddydau ac Addysg Cymru Gyfan, a bydd cynrychiolaeth gan brosiectau Cydweithio Creadigol a gweithgarwch Rhwydweithiau Rhanbarthol y Celfyddydau ac Addysg. Am ragor o wybodaeth, dilynwch y [ddolen yma](#).



Uwchgynhadledd Ieuentid ar Newid Hinsawdd: 5-7-19

Wrth i'n hymwybyddiaeth o effaith gweithgarwch dynol ar y blaned gynyddu, mae Prifysgol Bangor wedi ymrwmo i helpu datblygu dyfodol gwell ar gyfer plant a phobl ifanc. Fel plentyn neu berson ifanc, mae gennych hawl i ddweud eich dweud am y gwaith hwn a'r ffordd ymlaen i ddiogelu'r blaned ar gyfer y dyfodol. Am ragor o wybodaeth [cliciwch yma](#). Er mwyn cofrestru eich lle, dilynwch [y ddolen yma](#)



Canolfan Dyslecsia Miles: rhaglen o ddigwyddiadau ym mis Awst

Mae Canolfan Dyslecsia Miles yn cynnal rhaglen o ddigwyddiadau ar 20, 21 a 22 Awst. Cynhelir cyfres o ddarlithoedd a gweithdai ymarferol rhwng 10.00 yb a 4.00 yp, yn ymdrin â phynciau fel:

- Adnabod a Dynodi Dyslecsia
- Dulliau Addysgu Amlsynhwyraidd
- Effeithiau Cymdeithasol ac Emosiynol Dyslecsia
- Dyscalwlia a Mathemateg
- Dysgu Darllen a Sillafu

Mae pob diwrnod yn costio £85, ond gallwch archebu'r tri am bris gostyngol o £200 (yn cynnwys te a choffi). Nifer cyfyngedig o leoedd sydd ar gael, felly archebwch le'n fuan rhag cael eich siomi.

Ffoniwch Kelly Edwards/ Joanna Dunton ar **01248 382203/ 01248 383618** neu anfonwch e-bost at dyslex-admin@bangor.ac.uk am fwy o wybodaeth.

Mantell yr Arbenigwr - Noson Rwydweithio

Bydd Ysgol Sealand yn cynnal noson rwydweithio Mantell yr Arbenigwr **ddydd Mawrth, 2 Gorffennaf am 4yp tan 5yp**. Mae'r sesiwn yn agored i bob ysgol sydd â diddordeb yn Mantell yr Arbenigwr. Yn ystod y sesiwn, bydd cyfleoedd i staff rwydweithio ag ysgolion eraill sydd wedi bod yn defnyddio'r dull. Bydd trafodaethau anffurfiol o gwmpas y bwrdd dan arweiniad ysgolion cynradd sydd wedi bod yn defnyddio Mantell a bydd ymarferwyr sydd wedi'u mentora gan Luke Abbott hefyd yn cyfrannu. Dewch â'ch syniadau efo chi, ynghyd ag unrhyw gwestiynau y dymunwch eu holi am weithio yn y ffordd hon.

Bydd y sesiwn yn rhad ac am ddim i ysgolion, ond oherwydd maint yr ystafell, gofynnir yn garedig i chi nodi eich diddordeb drwy anfon e-bost at cerisiankenrick@gwegogledd.cymru. Am ragor o wybodaeth, mae croeso i chi gysylltu ag andreataylor@gwegogledd.cymru

Tiwtor Pwnc Gwyddoniaeth, TAR yng Nghymru

Mae'r Brifysgol Agored am benodi Tiwtor Gwyddoniaeth i gefnogi'r rhaglen TAR. Deilydd y rôl fydd Arweinydd Gwyddoniaeth TAR y Brifysgol Agored yng Nghymru a bydd yn gyfrifol am addysgu ac asesu myfyrwyr. Byddwch yn cydweithio â darpar athrawon, partneriaid ysgol ac eraill er sicrhau ansawdd a chyflwyno'r rhaglen yng Nghymru drwy gyfrwng hyfforddiant o bell ar-lein. Am ragor o wybodaeth, [cliciwch yma](#).



Gwybodaeth Amrywiol ac Arolygon

Adroddiad Estyn - Cefnogi gofawyr ifanc

Bydd hi'n Wythnos Gofawyr cyn hir, felly gwnewch yn siŵr bod eich ysgol, coleg neu UCD yn defnyddio ein adroddiad newydd sy'n cynnwys astudiaethau achos, rhestr wirio ac argymhellion. [Darllenwch yr adroddiad yma](#).

Grant Datblygu Disgyblion - Mynediad

Dydd Llun 10 Mehefin 2019, lansiodd Llywodraeth Cymru ymgyrch i annog teuluoedd yng Nghymru sy'n gymwys am y **Grant Datblygu Disgyblion - Mynediad** i wneud cais er mwyn helpu gyda phrynu gwisg ysgol a chyfarpar.

Sut y gallwch chi helpu

Gweler y [ddogfen briffio i randdeiliaid](#) fel y gallwch helpu'r Llywodraeth i hyrwyddo'r ymgyrch drwy eich rhwydweithiau a'ch sianeli.

Gwefannau Awdurdodau Lleol

Bydd angen i deuluoedd sy'n gymwys i wneud cais am y grant wneud hynny drwy eu awdurdod lleol. Fel y gwelwch o'r negeseuon cyfryngau cymdeithasol a thestun yr erthygl rydym yn defnyddio'r ddolen isod: <https://llyw.cymru/grant-datblygu-disgyblion-mynediad>



Cofiwch ddilyn @GwEGogleddCymru ar Twitter

GwEGogledd.Cymru

Am ragor o wybodaeth, ewch i'n [gwefan](#)

Rydym wedi tanysgrifio i dderbyn bwletin GwE. Fodd bynnag, os nad ydych yn dymuno derbyn y bwletin rhagor gallwch ddatdanygrifio drwy gysylltu â bwletin@gwegogledd.cymru yn nodi'r cyfeiriad e-bost sydd wedi'i gofrestru.

